OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 109 (Cy.22)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 26 Ionawr 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 28 Ionawr 2009
Yn dod i rym - - 19 Chwefror 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 109C o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009. Daw i rym ar 19 Chwefror 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006(**3**) wedi'i ddiwygio'n unol â pharagraff (2).

(2) Yn erthygl 5, yn lle "30 Mehefin 2009", rhodder "31 Rhagfyr 2009".

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

26 Ionawr 2009

(**1**) 2000 p.38.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006 p.32).
(**3**) O.S. 2006/2993 (Cy.280).